Crynodeb o Lwfansau Aelodau'r Cynulliad – Ebrill 2008

Lwfans Costau Swyddfa

1. Caiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa o hyd at £15,000 i dalu'r costau iddynt o ddodrefnu a chynnal swyddfa lle mae'r costau hynny wedi'u hysgwyddo yn llwyr, yn unig ac o raid at ddibenion eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Cynulliad.

2. Caiff Aelodau hefyd hawlio swm ychwanegol o Lwfans Costau Swyddfa gyda golwg ar unrhyw wariant o ddim mwy na £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar ragofalon diogelwch ac addasiadau i'w gwneud yn haws mynd i mewn ac allan o'u hadeiladau.

Lwfansau Costau Ychwanegol

3. Mae'r Lwfans Costau Ychwanegol yn ad-dalu'r Aelodau am dreuliau y bu'n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth aros dros nos o'u prif gartref er mwyn cyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau.

4. Caiff yr Aelodau sydd â'u prif gartref yn un o'r etholaethau canlynol hawlio hyd at £4,100 sy'n daladwy mewn cysylltiad â chostau aros dros nos o'u cartrefi.

Caerffili	Canol Caerdydd	Gogledd Caerdydd
De Caerdydd a Phenarth	Gorllewin Caerdydd	Dwyrain Casnewydd
Gorllewin Casnewydd	Pontypridd	Bro Morgannwg

5. Caiff Aelodau nad yw eu prif gartref yn un o'r etholaethau hyn hawlio hyd at £13,000 mewn cysylltiad â chostau unrhyw arhosiad dros nos oddi cartref. Mae'n daladwy hefyd mewn cysylltiad â chostau i'r Aelod o ddarparu ail gartref yng Nghaerdydd gan gynnwys eitemau megis dodrefn, llog morgais a rhent

Teithio

6. Disgwylir i'r Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol, gan roi ystyriaeth i union gost y daith a chostau aros dros nos ar fusnes y Cynulliad gan Aelodau o fewn Cymru.

7. Gall aelodau hefyd deithio i fannau eraill yn y DU ar draul y cyhoedd ar fusnes y Cynulliad cyn belled bod cymeradwyaeth wedi'i roi i'r daith ymlaen llaw a'i bod yn cydymffurfio ag un o'r gofynion canlynol:

    - Mae'r daith at ddiben y Cynulliad

- Mae’r daith yn ymwneud â mater sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, neu gerbron un o’r Pwyllgorau y mae’r Aelod yn ei wasanaethu

- Mae'n berthnasol i etholaeth, neu'n ymwneud â mater o ddiddordeb cyffredinol i'r etholaeth

8. Mewn unrhyw flwyddyn, mae hawl gan bob Aelod i wneud tair taith ddwyffordd rhwng y Deyrnas Unedig ac unrhyw un o Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd ym Mrwsel ac un daith ddwyffordd i unrhyw un o Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn Lwcsembwrg neu Strasbwrg neu senedd genedlaethol unrhyw aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd. Yn y naill achos neu’r llall, rhaid i brif bwrpas y daith fod yn gysylltiedig â chyfrifoldebau'r aelod fel Aelod o'r Cynulliad.

9. Caiff Aelod ofyn am ganiatâd y Llywydd i ffurfio dirprwyaeth i ymweld â senedd, cyngor neu gynulliad rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r cais ddangos manteision yr ymweliad i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nodi'n glir y bobl neu'r sefydliadau y byddant yn ymweld â nhw. Bydd unrhyw ymweliad o dan y paragraff hwn yn lle ymweliad y gellid fod wedi’i wneud i unrhyw un o Sefydliadau’r Gymuned Ewropeaidd yn Lwcsembwrg neu Strasbwrg neu senedd wladol aelod-wladwriaeth arall o’r Undeb Ewropeaidd.

10. Telir Cyfraddau Fesul Milltir a Gymeradwyir gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi i’r rheini sy’n teithio mewn car, ar feic modur a beic:

	Hyd at 10,000 milltir	Dros 10,000 milltir
Lwfans Milltiroedd mewn Modur	40 c y filltir	25 c y filltir
Lwfans Beic Modur	24 c y filltir	24 c y filltir
Lwfans Beic	20 c y filltir	20 c y filltir

11. Caiff Aelod hawlio cost teithiau ei b(ph)artner ac unrhyw blant dan ddeunaw oed rhwng Caerdydd a'r etholaeth, neu Gaerdydd a chartref cofrestredig yr Aelod hwnnw. Er hynny, dim ond ar gyfer 12 taith unffordd y flwyddyn gan aelodau o’i deulu y caiff Aelod eu hawlio.

Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad

12. Caiff Aelod hawlio Lwfans Cyflogau Staff i dalu costau cyflogi pobl i wneud gwaith gweinyddu, clercio neu waith ysgrifenyddol neu i wneud gwaith ymchwil, lle mae’r treuliau a ysgwyddwyd yn llwyr, yn unig ac o raid at ddibenion ei (d)dyletswyddau fel Aelod o’r Cynulliad. Mae’r lwfans hwn i dalu costau cyflog, ynghyd â'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig, hyd at 3 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn

ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

Band	Swyddi
1	Rheolwr Swyddfa
2	Uwch Ysgrifennydd Uwch Weithiwr Achos Cynorthwy-ydd Ymchwil Swyddog y Wasg
3	Gweithiwr Achos Ysgrifennydd Iau

13. Dyma'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn:

BAND	Pwynt 1	Pwynt 2	Pwynt 3	Pwynt 4	Pwynt 5
1	£20,512	£22,398	£24,457	£26,706	£29,162
2	£17,444	£19,238	£21,218	£23,402	£25,810
3	£15,747	£17,006	£18,364	£19,830	£21,414

14. Gall aelod hawlio swm ychwanegol hyd at £5,600 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws ac ati (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr mewn perthynas â'r taliadau hyn).

15. Caiff Aelodau hawlio lwfans ar gyfer costau'u cyfraniadau at gynllun pensiwn personol unrhyw staff a delir o'r Lwfans Cyflogau Staff neu Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol o 10% o'r cyflog a delir i'r unigolyn hwnnw. Bydd y taliad hwn yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r darparwr pensiwn gan y Cynulliad ar ran yr Aelod. .

16. Caiff Aelod hawlio Lwfans Staff Dros Dro i dalu treuliau a ysgwyddwyd yn llwyr, yn unig ac o raid yng nghyswllt ei (d)dyletswyddau yn y Cynulliad, i sicrhau cymorth ysgrifenyddol neu gymorth ymchwil os yw person y telir cyflog iddo/iddi o dan y Lwfans Cyflogau Staff yn cael ei atal rhag rhoi'r gwasanaeth hwnnw oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu.

17. Hefyd, caiff Aelod hawlio costau iddynt hwy o hyd at 18 taith ddwyffordd y flwyddyn rhwng Caerdydd a'r etholaeth, a wnaed ar gludiant cyhoeddus gan aelodau o'i staff.

Lwfans Arweinydd Plaid

18. Bydd gan Grwpiau o 3 neu fwy o Aelodau hawl i lwfans i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith yn y Cynulliad. Mae'r lwfans yn daladwy dim ond mewn cysylltiad â chostau a gaiff eu hysgwyddo ganddynt yn llwyr, yn unig ac o raid at ddibenion cyflawni eu cyfrifoldebau.

19. Caiff grwpiau ddewis cael y lwfans wedi'i gyfrif yn y naill ddull neu'r llall a ganlyn.

20. Yn yr opsiwn cyntaf:

(a) bydd gan bob grŵp hawl i swm (y swm sylfaenol) sydd heb fod yn fwy na £108,350;

(b) bydd pob grŵp nad yw'n cael ei gynrychioli gan Aelod yng Nghabinet y Cynulliad, yn ychwanegol at y swm sylfaenol, yn derbyn swm ychwanegol gaiff ei gyfrif yn y modd canlynol:

Ar gyfer grwpiau o 10 Aelod neu lai, swm o £63,750

Ar gyfer grwpiau o fwy na 10 Aelod, y swm uchod ac ar gyfer pob 5 Aelod ychwanegol o'r grŵp (neu ran ohono) swm ychwanegol o £26,100.

21. Rhaid i staff a gyflogir dan yr opsiwn hwn gael eu penodi i un o'r Bandiau canlynol a derbyn dilyn y raddfa leiaf a mwyaf ganlynol:

Band	Swyddi	Lleiafswm	Mwyafswm
1	Rheolwr Swyddfa	£20,512	£29,162
2	Uwch Ysgrifennydd Uwch Weithiwr Achos Cynorthwy-ydd Ymchwil Swyddog y Wasg	£17,444	£25,810
3	Gweithiwr Achos Ysgrifennydd Iau	£15,747	£21,414
4	Uwch Ymchwilydd	£27,780	£34,045

22. Yn yr ail opsiwn:

(a) Caiff grŵp plaid hawlio lwfans i dalu cyflogau a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol perthynol Cyflogwr hyd at 4.0 staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 3.0 staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

(b) Caiff grŵp o 10 neu lai o Aelodau na chaiff ei gynrychioli gan Aelod yng Nghabinet y Cynulliad benodi yn ychwanegol hyd at 2.0 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni ddylai mwy na 1.0 staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 4 fel y diffinnir uchod. Ni ddylai mwy na 1.0 staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

(c) Caiff grŵp o fwy na 10 Aelod na chaiff ei gynrychioli gan Aelod yng Nghabinet y Cynulliad ar gyfer pob 5 Aelod ychwanegol o'r grŵp (neu ran ohono) benodi'r staff a nodir yn (b) a hefyd hyd at 1.0 staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 fel y diffinnir uchod a'r gweddill o Fand 3.

23. Mae'r graddfeydd cyflog llawn amser ar gyfer y swyddi hyn fel a ganlyn:

BAND	Pwynt 1	Pwynt 2	Pwynt 3	Pwynt 4	Pwynt 5
1	£20,512	£22,398	£24,457	£26,706	£29,162
2	£17,444	£19,238	£21,218	£23,402	£25,810
3	£15,747	£17,006	£18,364	£19,830	£21,414
4	£27,780	£29,229	£30,754	£32,357	£34,045

24. Caiff grwpiau pleidiau hawlio swm ychwanegol o Lwfans Cyflogau Staff i dalu costau gwaith goramser, hyfforddiant, teithio, bonwsau ac ati (yn cynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw daliadau o'r fath), prynu cyfarpar angenrheidiol a llogi cyfleusterau ac ati.

25. Bydd y swm ychwanegol yn cael ei gyfrif fel a ganlyn:

(a) bydd gan bob grŵp yr hawl i swm (y swm sylfaenol) nad yw'n fwy na £9,900;

(b) bydd pob grŵp nad yw'n cael ei gynrychioli gan Aelod yng Nghabinet y Cynulliad, yn ychwanegol at y swm sylfaenol, yn derbyn swm ychwanegol a gaiff ei gyfrif fel a ganlyn:

Ar gyfer grwpiau o 10 Aelod neu lai, swm o £5,800

Ar gyfer grwpiau o fwy na 10 Aelod, y swm uchod ac, ar gyfer pob 5 Aelod ychwanegol (neu ran ohono) swm ychwanegol o £2,400.

Grant Ymaddasu

26. Caiff Cyn Aelodau hawlio Grant Ymaddasu os ydynt yn gwasanaethu fel AC yn union cyn etholiad cyffredin y Cynulliad fel Aelod o'r Cynulliad a'i fod un ai

- heb fod yn ymgeisydd ar gyfer ei ail-ethol; neu
- yn ymgeisydd ar gyfer ei ail-ethol ond nad yw'n cael ei ail-ethol,

27. Mae swm y grant yn cael ei fynegi fel canran o gyflog blynyddol ac fe'i penderfynir gan oedran (ar amser yr etholiad) a hyd gwasanaeth fel Aelod o'r Cynulliad cyn yr etholiad.

28. Caiff Aelodau'r Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop ac sy'n cael dwy ran o dair yn llai o'u cyflog Cynulliad yn unol â Phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau) 2008 gyfrif eu Grant Ymaddasu trwy gyfeirio at y lefel cyflog di-dor.

29. Dangosir y canrannau perthnasol yn y Tabl canlynol.

	Hyd y gwasanaeth						
Oedran	O dan 10	10	11	12	13	14	15 neu fwy
O dan 50	50	50	50	50	50	50	50
50	50	50	52	54	56	58	60
51	50	52	55	58	62	65	68
52	50	54	58	63	67	72	76
53	50	56	62	67	73	78	84
54	50	58	65	72	78	85	92
55 i 64	50	60	68	76	84	92	100
65	50	58	65	72	78	85	92
66	50	56	62	67	73	78	84
67	50	54	58	63	67	72	76
68	50	52	55	58	62	65	68
69	50	50	52	54	56	58	60
70 neu'n hyn	50	50	50	50	50	50	50

30. Bydd Aelodau'r Cynulliad sydd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn o wasanaeth wedi dal swydd gyflogedig (e.e. Llywydd y Cynulliad neu Gadeirydd Pwyllgor) yn derbyn taliad ychwanegol ar ffurf Grant Ymaddasu. Mae'r taliad ychwanegol hwn yn gyfartal â'r cyflog oedd yn daladwy fel deiliad y swydd honno yn y tri mis cyn eu bod yn peidio â bod yn ddeiliad y swydd honno. Os oedd Aelod yn dal mwy nag un swydd yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd swm y cyflog y mae'r taliad hwn yn seiliedig arno yr uchaf, neu yn ôl fel y bo'n digwydd, y swm uchaf sy'n daladwy am gyflawni swydd.

31. Mae gan unrhyw Aelod y mae ei (h)iechyd yn ei (h)atal rhag parhau i gymryd rhan fel Aelod o'r Cynulliad yr hawl i gael Grant Ymddeol ar Sail Afiechyd o beidio â bod yn Aelod. Caiff swm y grant sy'n daladwy ei gyfrif ar yr un sail â hawl i Grant Ymaddasu.

Lwfans Dirwyn i Ben

32. Caiff cyn Aelod Cynulliad (neu gynrychiolydd personol Aelod Cynulliad ymadawedig) hawlio lwfans gyda golwg ar gost cau materion yn y Cynulliad iddo/i. Ni all y swm a hawlir fod yn fwy nag un rhan o dair o gyfanswm y Lwfans Costau Swyddfa, elfen Costau Staff eraill y Lwfans Cyflogau Staff sydd mewn grym ar hyn o bryd a gwir gyflogau fel taliad i staff a gyflogir gan y Cyn Aelod ar y diwrnod y gadawodd ef/hi y Cynulliad.

33. Bydd y taliadau'n nodweddiadol yn cynnwys costau staff, swyddfa a chostau teithio gaiff eu hysgwyddo o raid ar ddyletswyddau'r Cynulliad sydd heb eu cwblhau. Fe'u defnyddir i dalu am derfynu yn drefnus gontractau staff, prydlesau swyddfeydd ac ati ac mae'n cynnwys gwariant a fyddai o'r blaen wedi'i dalu o'r Lwfans Staffio neu'r Lwfans Costau Swyddfa, ynghyd â threuliau penodol sy'n deillio o adael y Cynulliad, megis treuliau symud ymaith a gwaredu gwastraff cyfrinachol.